# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 13eg o Ragfyr, 2022** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Capel Tabor** |
| **CADEIRYDD** | **Sianelen Pleming** |
| **COFNODION** | **Lois Merks** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Cresawodd y Cadeirydd Sianelen Pleming bawb i'r cyfarfod.<br><br>**Yn bresennol henno roedd:**<br>**Sianelen, Emlyn, Jina, William, Liz, Gruff, Lois** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Olwen Roberts **(OR),** Gethin Jones **(GJ),** y clerc **(GT)** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2022** |
| | **a. CYFLWYNO A MABWYSIADU**<br>Cynnigwyd gofnodion Tachwedd yn gywir gan **Emlyn** gyda **Gruff** yn eilio<br><br>**b. MATERION YN CODI**<br><br>**I. TRAFFIG NANT GWRTHEYRN I LAWR Y LON I'R PENTREF (ANGEN TWMPATH WRTH YMYL TABOR?) –**<br>Y clerc wedi llythyru ac Iwan ap Trefor yn wythnosol yn gofyn am adborth parthed yr addewid I wneud asesiad cynnigiodd ar y 26 o Ebrill 2022, heb dderbyn ymateb.<br>Twmpathau ddim yn cael eu gosod<br><br>II. **PARCIO TU ALLAN I'R SIOP (ARWYDD LLWYTHO YN UNIG)** –<br>Heb gael diweddariad hyd yn hyn<br><br>III. **CYFFORDD GER Y SIOP - ARWYDDION STOP / GIVE WAY** –<br>Heb gael diweddariad hyd yn hyn<br><br>**IV. ARWYDDION 30 WRTH DDOD O NANT –**<br>Heb gael diweddariad hyd yn hyn<br>**Y cyngor yn mynd i edrych ar hyn pan fydd y cyfyngiadau 20mpa yn dod i rym**<br><br>V. **DIM ARWYDDO O GWBL AR LON RHOSYDD** –<br>Trafodwyd pa arwydd fydd orau - Heb gael diweddariad hyd yn hyn<br><br>**VI. Y TWLL GER Y FYNWENT –**<br>Cais wedi ei wneud, Heb gael diweddariad hyd yn hyn<br><br>**VII. Y LLAIN TIR TRWY'R PENTREF (CEIR YN PARCIO A'I DROI YN FWD) –**<br>Roedd EW wedi gaddo gwneud ymholiadau |

| | |
|---|---|
| | **SYLWADAU: Emlyn wedi cael gair efo rhywun i ddod i weld y gwaith a rhoi pris ac opsiynau gwahanol**<br><br>**VIII. <u>CYNLLUN HYFFORDDIANT Y CYNGOR CYMUNED</u>**<br>Hoffwn dynnu eich sylw I'r hyfforddiant isod gan Cymorth Cynllunio Cymru – dilynwch y linc<br>**<u>Planning: From Start to Finish – Planning Aid Wales</u>**<br>Gellir rhoi mynediad llawn i'r cwrs hwn i hyd at 20 aelod o un cyngor cymuned am £150/blwyddyn.<br><br>**SYLWADAU: Jina am gysylltu gyda Un Llais Cymru a Planning Aid Wales am hyfforddiant mewn Cymraeg.**<br>**Lois heb gael linc zoom i fynd ar yr hyfforddiant.**<br>**Oes gohebiaeth wedi cael ei yrru am hyfforddiant mewn Cymraeg?**<br><br>**IX. <u>GJLJ - DIFROD I BOLYN STAY BT GYFERBYN A'R SAFLE DWR AR LON</u>**<br>Y gwaith wedi ei gwblhau<br><br>**X. <u>OR - TYLLAU WEDI YMDDANGOS O GANLYN DŴR O'R GYFFORDD WRTH Y SIOP AM DROIAD LON ISAF HEFYD I FYNNU AM NANT GWRTHEYRN.</u>**<br>Wedi adrodd y gwyn I Briffyrdd Dwyfor<br>**SYLWADAU:**<br><br>**XI. <u>OR – CAIS GLANHAU TRAENIAU O FLAEN TŶ TEGWCH, LLITHFAEN HEFYD TRAENIAU CYFFREDINOL Y WARD.</u>**<br>Cais wedi ei wneud i Briffyrdd Dwyfor<br>**SYLWADAU:** |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO / TRWYDDEDU** |
| | **a. <u>CAIS TRWYDDED EIDDO NEWYDD: CAFFI NI, WERN CARAVAN PARK, PISTYLL, PWLLHELI LL53 6LW</u>**<br><br>Sylwadau i'w dderbyn erbyn:05-01-2023<br><br>**Oriau agored**: Sul i Sadwrn 8 – 11<br><br>**<u>GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDADWY / LICENSABLE ACTIVITIES:</u>**<br><br>• **Cerddoriaeth Fyw**: Sul i Sadwrn 8 – 11<br>• **Cerddoriaeth wedi ei Recordio: Dan do ac Awyr Agored** - Sul i Sadwrn 8 – 11<br>• **Perfformiadau Dawns:** Sul i Sadwrn 8 – 11<br>• **Cyflenwi Alcohol Ar ac oddi ar yr Eiddo:** Sul i Sadwrn 8 – 11 |

| | |
|---|---|
| | **SYLWADAU: Cefnogi'r fenter ac yn dymuno phob lwc yn eich menter newydd.** |
| **7.** | **JG - GWERINDY, PISTYLL** |
| | Cais yw hwn gan Jina Gwyrfai i'w drafod Y cyngor yn ffafriol o prosiect i greu rhywbeth cymunedol, ond ei'n bod yn gwybod pwy yw'r perchennog. |
| **8.** | **CYNLLUN PEILOT ARDAL DWYFOR** |
| | Yn dilyn eich trafodaethau diweddar, roedd Catrin o dan yr argraff y byddai `bydai' sydd wedi eu trosi i unedau gwyliau neu unrhyw eiddo a chyfyngiad cynllunio sydd yn golygu mae dim ond llety gwyliau gawn nhw fod, wedi eu heithrio rhag profi bod ganddynt 182 o nosweithiau wedi ei llogi gan nad ydynt yn gallu bod yn unedau preswyl oherwydd polisi cynllunio.<br><br>Serch hynny wrth iddi barhau i ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o'r rheol derbyniwyd cadarnhad nad ydy'r eiddo yma wedi ei eithrio o'r rheol brofi 182 o nosweithio wedi ei llogi. Ac felly fydd rhaid profi fel unrhyw lety wyliau arall eu bod wedi ei llogi am 182 o ddiwrnodau.<br><br>Felly ei dealltwriaeth hyd yma ydi :-<br>· Os nad yw eiddo llety gwyliau yn cyrraedd y 182 o ddiwrnodau maent yn cael eu trosi i'r rhestr eiddo domestig (trethu fel tai preswyl arferol)<br>· mi fydd nifer o'r unedau gwyliau yma yn derbyn premiwm ail gartref (100% hyd yn hyn) OND<br>· mi fydd unrhyw `bydai' sydd wedi eu trosi i uned gwyliau neu eiddo a chyfyngiad cynllunio yn cael eu heithrio rhag talu'r premiwm (felly dim ond trethi arferol fydd yn rhaid i rai i'w talu.)<br><br>Roedd nifer o'r cymunedau yn pryderu y byddai unigolion sydd efallai a 4 o fythynnod gwyliau yn gorfod talu premiwm ar y 4 bwthyn ac felly yn costio dipyn o arian. Yr argraff yr oedan nhw wedi ei roi oedd nad oedd rhaid iddynt symud o'r rhestr trethi Annomestig ond yn amlwg rŵan bydd rhai yn symud drosodd ond ni fyddant yn talu yn ychwanegol gan eu bod wedi eithrio o'r Premiwm.<br><br>Nid yw'r rhestr eithriadau ar gael i'w gylchredeg gan fod y tîm Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar y polisi.<br><br>Mai hefyd wedi cynnwys rhai ystadegau defnyddiol ar gyfer eich Cymuned:<br><br><u>Pistyll:</u><br>Cyfanswm nifer o unedau: 306<br>Nifer o dai domestig: 284<br>Nifer o Unedau gwyliau: 22 (7.18%)<br>Nifer o ail gartrefi: 34 (11.11%)<br>Gwag: 12 (10 dros 12 mis) (3.9%)<br><br>**<u>SYLWADAU: Derbyn ar ran gwybodaeth</u>** |

| 9. | **CAE CHWARAE – YSWIRIANT** |
|---|---|
| | Annwyl Gadeirydd,<br>Diolch yn fawr iawn i'r aelodau a fynychodd ein hagoriad swyddogol yn y cae chwarae ar y 5ed o Dachwedd. Dwi'n gobeithio eu bod wedi mwynhau ac wedi pasio ein diolch ymlaen i weddill y cyngor. Rydym wedi gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn ar hyd y 2 flynedd diwethaf.<br>Ymhellach i hynny, mae hi'n amser i ni ystyried ein gwariant am y flwyddyn o'n blaenau, ac yn ôl yr arfer, rydym yn gwneud cais am arian gan y cyngor i dalu am yswiriant y cae. Ymddiheuraf fod y cais yn dod yn hwyr, ond rydym wedi bod yn aros am ddyfynbris gan gwmnïau yswiriant i yswirio'r offer newydd - doedd yr offer ddim yn cael ei yswirio cyn hyn, dim ond sicrwydd 'Public Liability' sydd wedi ei roi bob Blwyddyn. Rydym wedi anfon y ddogfennaeth angenrheidiol i gael dyfynbris am y sicrwydd pellach yma, ond heb dderbyn yr amcan bris eto. Ond gan ein bod yn ei gweld yn mynd yn hwyr yn y flwyddyn arnom yn ofyn penderfynwyd cysylltu ar y pwynt hwn beth bynnag, gan setlo am yswiriant yr un fath a'r blynyddoedd blaenorol.<br>Yn y gorffennol mae cost yr yswiriant wedi bod oddeutu £770. Felly hoffwn wneud cais am £850 (gan gymryd y bydd pris hyn hefyd wedi mynd i fyny fel popeth arall!) i dalu am yswiriant o Fawrth 2023 i Fawrth 2024.<br>Diolch yn fawr iawn.<br>Yn gywir,<br>**Luned Evans**<br>Ar ran Pwyllgor Cae Chwarae Llithfaen<br><br>**SYLWADAU: I'w rhoi yn y ceisiadau mis chwefror gyda swm cywir ir yswyriant, Sianelen am ddweud yn y pwyllgor cae chwarae.** |
| **10.** | **Y GANOLFAN** |
| | Nid oes diweddariad gan y Clerc<br><br>**SYLWADAU:** |
| **11.** | **MAES PARCIO, NANT** |
| | Nid oes diweddariad gan y clerc<br><br>**SYLWADAU:** |
| **12.** | **MATERION LLEOL** |
| | **SYLWADAU: Jina am ysgrifennu llythyr agored i bobl Llithfaen a Pistyll am yr help sydd ar gael i deuluoedd sy'n angen cymorth. Jina am weld yn union beth sy'n digwydd efo'r arian a beth sydd ar gael (talebau bwyd, glo) Diweddariad misol.**<br><br>**Cyngor Pwlyf i anfon llythyr i Dafydd John i ofyn os allai adael y pafin yn glir gan fod wynion wedi dod i fewn gan fod pobl methu pasio efo goets a phlant.** |

| 13. | GOHEBIAETH A GWYBODAETH |
|---|---|

a. BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU
SYLWADAU:

b. HWB NATUR - PETHAU BYCHAIN
SYLWADAU:

c. YMGYNGHORIAD DYFODOL CYMUNEDAU CYMRAEG: GALWAD AM DYSTIOLAETH
SYLWADAU:

d. CRONFA GRANT CROESO CYNNES
SYLWADAU:

e. YR HYFFORDDIANT DIWEDDARAF GAN GYMORTH CYNLLUNIO Cymru
SYLWADAU:

f. YMGYNGHORIADAU AR REOLIADAU DRAFFT I ESTYN EITHRIADAU PREMIYMAU AIL GARTREFI AC AR GANLLAWIAU
SYLWADAU:

g. COFNODION GWEITHDY ARDAL NI DALGYLCH PWLLHELI
SYLWADAU:

h. GWARIANT ADRAN 137 Y TERFYN AR GYFER 2023-24
SYLWADAU:

i. NODYN BRIFFIO 2 CYNNIG DATBLYGU GWASANAETH (GAT EMRTS CYMRU)
SYLWADAU:

| 14. | CYLLID |
|---|---|

Cynigwyd y cyfrifon yn gywir gan Liz gyda Lois yn eilio

**CYSONIAD RHAGFYR 2022**

| | | | |
|---|---|---|---|
| CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2022 | | | £ 7,089.26 |
| CYFRIF CADW MAWRTH 2022 | | | £ 2,661.01 |
| LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC | | | £ 200.00 |
| GWARGED 2022 / 2023 | | | £ 7,359.56 |
| CRONFA'R CYNGOR | | = | £ 16,909.83 |

I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC

| | | | |
|---|---|---|---|
| CYFRIF CYFREDOL | 30/11/2022 | | £ 14,511.83 |
| CYFRIF CADW | 06/09/2022 | + | £ 2,662.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | = | £ 17,173.83 |
| <u>LLAI SIECIAU I'W CYMERADWYO</u> | | | |
| - G. Thomas | **201259** | | £ 264.00 |
| - **Pwyllgor y Cae Chwarae** | | | ????????? |
| | | = | **£ 264.00** |
| **SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR** | | = | **£ 16,909.83** |
| - **LLAI BALANS CRONFA'R DIFFIBLWR** | | - | **£ 299.84** |
| **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** | | = | **£ 16,609.99** |

| | |
|---|---|
| **15.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | **SYLWADAU: Oes posib cael y cofnodion ac unrhyw gohebiaeth pythefnos oflaen y cyfarfod a bod popeth ar un ebost.** |